

## Cyngor Cymuned Ganllwyd

10fed Ebrill 2024

### Presennol

Cyng D.Morris, G.Jones, C.Edwards,S.Jones,C.Dixon.

### Ymddiheuriadau

Cyng G.Hughes,D.Griffiths a S.Roberts

### Cofnodion Mawrth 2024.

Cynnigodd Cyng C.Edwards fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng S.Jones.

### Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.

Dim.

### Materion yn codi.

#### ***Canolfan Coed y Brenin,Ganllwyd.***

Dywedodd y Cynghorydd Morris a Jones y bydd y mudiad gwirfoddol sy'n cysylltu â CNC yn cael ei alw'n "Caru Coed Y Brenin". Y bwriad yw bod y grŵp yn dod yn Gwmni Budd Cymunedol cyfyngedig drwy warant.

Cynhaliwyd cyfarfod pellach gyda chynrychiolydd CNC, Elsie Grace pan gafodd "CCYB" ganiatâd i agor siop goffi yng Nghoed Y Brenin. Mae'r grŵp yn gobeithio y bydd y siop ar agor i'r cyhoedd erbyn diwedd Mai 2024.

Mae cynrychiolwyr "CCYB" yn trefnu cynnal astudiaeth ddichonoldeb i hyfywedd cymryd drosodd y ganolfan ymwelwyr. Bydd astudiaeth o'r fath yn amlwg yn cymryd peth amser i'w chwblhau a bydd y cyngor cymuned yn cael ei ddiweddarw wrth i bethau ddatblygu.

Mae boncyff coeden wedi cael ei adael ar ochr hen ffordd yr A470 Gelligemlyn, Cyngor Gwynedd i gysylltu â nhw er mwyn ei ddileu.

Ffordd Ffridd Goch- Mae'r ffordd wedi dychwelyd i gyflwr gwael o ganlyniad i ddraeniau a chylffosydd wedi'u blocio. Cyngor Cymuned i ail gysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r mater.

### **Cynghorwr Sir.**

Ddim yn bresennol.

### **Hyfforddiant.**

Mae'n angenrheidiol i bob cynghorydd gael hyfforddiant sy'n gydnaws â'u rôl. Gall pob cynghorydd ddewis ei bortffolio ei hun a chwblhau ei hyfforddiant i ategu'r portffolio. Bydd y mater hwn yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol pan ddisgwylir i bob cynghorydd enwebu ei bortffolio.

### **Materion ariannol.**

Mae gwasanaeth archwilio mewnol cyngor Gwynedd wedi cytuno i oruchwylio archwiliad mewnol y cyngor cymunedol.

### **Cyson Banc: Mawrth 2023**

Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: £4143.67

Derbyniwyd:

Dim

Taliadau:

Cyflog/Paye £100.00

Treuliau banc £10.00

Aelodaeth Un Llais Cymru £33.00

Cyfrifiadur Newydd £458.99

Yn y Banc diwedd mis £3541.68

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor.

Awdurdododd y cyngorwyr dalu'r anfonebau canlynol;

D.Owen (argraffydd inc) £37.50

Taliad aelodaeth Un Llais Cymru £35

Cyfrifydd E.W.Owen £216.00

Grantiau- Mae'r Cyngor wedi derbyn grant o hyd at £500 i arddangos modelau o ddiddordeb lleol a roddwyd i'r Cyngor gan Rhodd Humphreys. Bydd Cyngorydd Morris yn ceisio trefnu adeiladu achosion arddangos i gartrefu'r modelau.

### **Llythyrau & E.bost.**

Mae'r Parc Cenedlaethol wedi hysbysu'r cyngor cymuned y bydd hysbysiad Cyfarwyddyd Erthygl 4 sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchnogion tai sydd wedi'u lleoli yn y Parc Cenedlaethol wneud cais am ganiatâd cynllunio wrth newid annedd breswyl yn ail gartref neu ar osodiad gwyliau yn dod i rym ar 1af Mehefin 2025.

Mae'r cyngor yn croesawu'r rheoliad hwn.

Tai ar daith Cyngor Gwynedd- Gwahoddir aelodau i fynychu digwyddiad tebyg i sioe deithiol yn Nhŷ Siamas, Dolgellau (3pm -6.30pm) i ddysgu am y cynlluniau a'r cyfleoedd y mae Cyngor Gwynedd wedi'u cynllunio yn y sir.

### **Unrhyw fater arall.**

7, Derwen Deg, Ganllwyd – Mae'r tŷ yma wedi bod yn wag ers tua 2 fis ac mae'r tenant wedi symud yn ôl i Loegr er ei fod yn cadw'r denantiaeth. Gyda phrinder tai cymunedol yn yr ardal mae'r cyngor yn pryderu bod y tŷ yn parhau'n wag gyda theuluoedd sydd angen tai ddim yn gallu ei feddiannu. Bydd y cyngor cymuned yn cysylltu â'r awdurdodau lleol i drafod y mater hwn.